Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Bartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru

Prifysgol De Cymru
Campws Dinas Casnewydd
Ffordd Trefynwy
Casnewydd
Gwent
NP20 2BP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025 – Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn â Phartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru

Mae Partneriaeth Prifysgol De Cymru yn cynnwys Prifysgol De Cymru, naw ysgol arweiniol a 75 o ysgolion rhwydwaith sydd wedi eu lleoli ledled de ddwyrain Cymru. Yn y brifysgol, mae'r bartneriaeth wedi'i lleoli yn yr Ysgol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol, sydd o fewn y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg.

Mae'r bartneriaeth yn darparu dwy raglen. Achredwyd y rhaglen israddedig BA (Anrhydedd) Addysg Gychwynnol i Athrawon Cynradd gyda SAC gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2020. Ar ôl achrediad, dechreuodd y rhaglen TAR Cynradd yn 2022.

Mae'r ddwy raglen yn gyrsiau amser llawn. Mae'r rhaglen israddedig yn gwrs tair blynedd a'r TAR yn gwrs blwyddyn. Cynigir y ddwy raglen gydag opsiynau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae 37 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TAR Cynradd, a thri ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 170 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen BA Cynradd, ac 14 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Crynodeb

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Prifysgol De Cymru wedi'i hadeiladu ar gysylltiad sefydledig rhwng Prifysgol De Cymru a'i hysgolion partner. Mae'r bartneriaeth wedi'i seilio ar egwyddor sylfaenol 'cymunedau dysgu', a cheir perthnasoedd gwaith cryf, sydd wedi'u nodweddu gan barch ar y ddwy ochr rhwng tiwtoriaid, mentoriaid a myfyrwyr. O ganlyniad i gymorth personol a phroffesiynol cryf, mae gan athrawon dan hyfforddiant agweddau rhagorol at ddysgu ac maent wedi eu cymell yn gryf i ddod yn ymarferwyr effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cynnydd addas, o leiaf, ar y ddwy raglen. Maent yn elwa ar ymroddiad personol cryf eu tiwtoriaid a'u mentoriaid, sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau addysgu yn briodol. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn addysgu a phrofiadau dysgu yn cyfyngu ar eu cynnydd, yn enwedig o ran datblygu eu medrau cynllunio a meddwl beirniadol.

Mae elfennau o'r rhaglen a addysgir yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae llawer o agweddau'n adlewyrchu gweledigaeth y brifysgol 'i newid bywydau a'n byd er gwell'. Mae profiadau addysgu wedi'u gwreiddio mewn uchelgais i fyfyrwyr ddeall y cyd-destun y maent yn gweithio ynddo a diwallu anghenion eu disgyblion. Mae 'Diwrnodau Synergedd' yn yr ysgol yn eu helpu i greu cysylltiadau rhwng theori ac arfer, ac mae sesiynau sy'n cael eu haddysgu yn y brifysgol lle mae tiwtoriaid yn rhannu eu harbenigedd ac yn modelu arfer effeithiol yn cefnogi datblygiad myfyrwyr. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg myfyrwyr a chyfleoedd i ddeall cyd-destun eu hysgolion profiad ysgol ill dwy yn agweddau cryf ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r ddwy raglen wedi'u strwythuro'n ddigon effeithiol i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ffordd sy'n briodol o raddol neu ddilyniannol.

Er bod mentoriaid yn ymroddgar a chydwybodol, mewn tua hanner yr achosion, nid ydynt yn cefnogi myfyrwyr yn ddigon da mewn agweddau ar eu datblygiad. Ar y cyfan, mae hyn oherwydd bod eu hadborth yn canolbwyntio gormod ar y safonau proffesiynol ac nid yw wedi'i deilwra'n ddigon penodol i gynorthwyo myfyrwyr â datblygu agweddau ar eu harfer fel cynllunio neu ddatblygu medrau disgyblion.

Mae arweinyddiaeth yn y bartneriaeth wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. Mae'r Cyfarwyddwr AGA a benodwyd yn ddiweddar wedi ymrwymo i welliant ac wedi ymgymryd â gwaith pwysig i gryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. Fodd bynnag, megis dechrau y mae hyn, ac er gwaethaf datblygiadau diweddar i strwythurau a phrosesau arweinyddiaeth, ni aethpwyd i'r afael yn ddigonol eto â diffygion mewn meysydd fel mentora, hunanwerthuso a sicrhau ansawdd.

Argymhellion

A1 Gwella cydlyniad cynllun y rhaglen fel bod dilyniant y dysgu yn galluogi myfyrwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth a chefnogi eu myfyrio beirniadol

A2 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws y bartneriaeth

A3 Gwella prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a'r mentora i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr yn raddol

A5 Gwella dealltwriaeth myfyrwyr o gynllunio tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar draws y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y bartneriaeth ymhen rhyw flwyddyn.

Prif ganfyddiadau

Dysgu:

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cynnydd da, o leiaf, tuag at fodloni'r safonau ar gyfer SAC (Statws Athro Cymwys). Mae tua hanner y myfyrwyr ar y ddwy raglen yn gwneud cynnydd cryfach, ac ychydig ohonynt yn cyflawni'n dda iawn.

At ei gilydd, mae athrawon dan hyfforddiant ar y ddwy raglen yn meddu ar ddealltwriaeth gynyddol o gynllunio gwersi'n effeithiol. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n agos gyda'u mentoriaid i gynllunio gwersi sy'n cael eu trefnu'n effeithiol ac yn briodol o heriol ar gyfer oedrannau a chyfnodau gallu disgyblion. Mae llawer o fyfyrwyr yn cynllunio dilyniannau cydlynus o wersi sydd wedi'u strwythuro'n rhesymegol ac yn caniatáu ar gyfer dilyniant priodol yn nysgu disgyblion dros gyfnod. Mae eu cynlluniau'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn briodol, er enghraifft trwy ystyried dulliau thematig a medrau trawsbynciol, ac yn alinio'n dda â chynlluniau dysgu ysgolion. Mewn tua hanner yr achosion, mae cynllunio myfyrwyr yn y meysydd di-graidd fel y celfyddydau mynegiannol neu'r dyniaethau yn hynod greadigol, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio'u diddordebau a'u profiadau eu hunain. Yn yr enghreifftiau gorau prin, mae athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio ymagwedd wreiddiol at gynllunio. Maent yn cyflwyno cynnwys arloesol neu gynnwys sy'n berthnasol yn ddiwylliannol, gan addasu cynlluniau ysgol ac ymgorffori materion cyfoes, profiadau personol neu hanes lleol, er enghraifft, i symbylu chwilfrydedd ac ymgysylltiad disgyblion. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae myfyrwyr yn dibynnu'n ormodol ar gynlluniau cyhoeddedig neu gynlluniau dysgu'r ysgol, ac mae hyn yn arwain at addysgu fformiwläig, a chollir cyfleoedd i ymateb i anghenion a diddordebau disgyblion.

Mae tua hanner yr athrawon dan hyfforddiant yn nodi nodau dysgu clir wedi'u cefnogi gan feini prawf llwyddiant tra ystyriol yn eu cynlluniau gwersi. Fodd bynnag, diffyg cyffredin wrth gynllunio gwersi yw nad yw myfyrwyr yn nodi amcanion dysgu na meini prawf llwyddiant yn ddigon manwl. Yn ychwanegol, mae mwyafrif o fyfyrwyr yn cyfeirio at Gwricwlwm i Gymru yn arwynebol, er enghraifft trwy gynnwys amcanion ar gyfer y pedwar diben ym mhob gwers, neu ddyfynnu'r camau dilyniant fel meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, nid yw'r myfyrwyr hyn yn cynllunio ar gyfer dysgu disgyblion yn ddigonol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i nodi'r dulliau addysgu a'r cyfleoedd asesu mwyaf effeithiol. Mae tua hanner y myfyrwyr yn ystyried anghenion gwahanol alluoedd yn eu dosbarthiadau yn dda. Maent yn cynllunio ar gyfer cymorth gan gynorthwywyr addysgu, yn trefnu disgyblion yn ôl grwpiau gallu ac yn defnyddio gwybodaeth, fel data oedran darllen, i greu adnoddau gwahaniaethol i ymgysylltu â disgyblion o wahanol alluoedd yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn cynllunio'n rhy arwynebol i ddiwallu anghenion disgyblion. Nid ydynt yn darparu strategaethau ymarferol clir i ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion yn

eu dysgu, ac nid ydynt yn diffinio rolau oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon da. Mewn lleiafrif o achosion, mae cynllunio myfyrwyr yn rhy uchelgeisiol, ac yn ceisio cwmpasu gormod mewn un sesiwn.

Yn yr ystafell ddosbarth, mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn ffurfio perthnasoedd cryf a chefnogol â disgyblion, gan feithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae llawer ohonynt yn sefydlu presenoldeb ystafell ddosbarth sy'n annog ymddiriedaeth ac ymgysylltiad disgyblion. Maent yn rheoli arferion ystafell ddosbarth yn hyderus ac yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol, atgyfnerthu cadarnhaol, gwobrau grŵp a disgwyliadau ymddygiad, fel 'amser tacluso' i gynnal ymgysylltiad a hyrwyddo dysgu.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn cyfathrebu'n glir ac yn fodelau rôl iaith cadarnhaol. Maent yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau sydd wedi'u strwythuro'n dda. Yn yr achosion cryfaf prin, mae hyn yn cynnwys modelu geirfa sy'n benodol i bwnc a sut i greu ymateb effeithiol ar lafar. Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau i gefnogi galw dysgu blaenorol i gof a sbarduno trafodaeth. Mewn lleiafrif o achosion, mae myfyrwyr yn ymatebol yn eu holi ac yn sbarduno myfyrio dyfnach, gan annog disgyblion i ddisgrifio'u rhesymu. Mae tua hanner y myfyrwyr yn gwneud y gorau o gyfleoedd i asesu cynnydd disgyblion yn ystod y wers, gan annog hunanwerthuso a hyrwyddo dysgu. Mae ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn ymateb yn hyblyg i ddysgu'r disgyblion, yn addasu eu haddysgu ac yn newid tasgau i ymateb i gynnydd disgyblion.

Mewn lleiafrif o achosion, fel arfer oherwydd bod nodau dysgu'n aneglur, mae rheolaeth ystafell ddosbarth myfyrwyr yn llai cadarn. Nid ydynt yn ymateb yn ddigon cyflym i darfu lefel isel, neu nid ydynt yn cynnal momentwm mewn gwersi. Mewn ychydig o achosion, nid yw myfyrwyr yn strwythuro'u gwersi'n ddigon effeithiol ac mae disgyblion yn ymddieithrio oherwydd cyflymdra araf yr addysgu neu dasgau cychwynnol rhy hir. Mae ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn cael trafferth â'u presenoldeb yn yr ystafell ddosbarth. Nid ydynt yn defnyddio'u llais yn ddigon da i reoli disgyblion ac nid ydynt yn sganio'r ystafell ddosbarth fel mater o drefn i sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu.

Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion, gan adael lle prin ar gyfer annibyniaeth, archwilio neu gydweithio rhwng cyfoedion. Nid yw ychydig ohonynt yn meddu ar afael digon cadarn o agweddau ar y cwricwlwm, yn enwedig mewn llythrennedd, mathemateg a gwyddoniaeth. O ganlyniad, maent yn camddefnyddio terminoleg, yn gwneud gwallau gramadegol yn Gymraeg a Saesneg, neu'n methu sylwi ar gamdybiaethau disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r myfyrwyr hynny sy'n dysgu Cymraeg yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau iaith. Mae myfyrwyr ar y rhaglen israddedig yn fwy hyfedr wrth ddefnyddio Cymraeg bob dydd na'r rhai ar y rhaglen ôl-raddedig. Mae tua hanner ohonynt

yn hyderus i ddefnyddio gorchmynion ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn yr ystafell ddosbarth, ac yn amlygu geirfa allweddol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ôl-raddedig a mwyafrif o fyfyrwyr israddedig yn meddu ar fedrau cadarn mewn llythrennedd, ac ar y cyfan, maent yn cefnogi datblygiad medrau disgyblion yn briodol. Mae medrau rhifedd ychydig o fyfyrwyr ar y ddwy raglen yn wan, ac mae hyn yn rhwystro'u gallu i gynllunio'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau digidol digonol, o leiaf, y maent yn eu defnyddio i ddatblygu hyfedreddau disgyblion ac i ymestyn eu haddysgu trwy ddefnyddio adnoddau rhyngweithiol. Mae ychydig o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau digidol hynod gryf, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol yn yr ysgol, yn eu haddysgu ac wrth gefnogi aelodau staff eraill.

Yn eu sesiynau a addysgir yn y brifysgol ac yn yr ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn feddylgar a myfyriol. Mewn llawer o sesiynau, maent yn huawdl ac yn mynegi eu syniadau â brwdfrydedd. At ei gilydd, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm ac addysgeg allweddol yn briodol, er bod eu cynnydd yn anghyson ar draws meysydd dysgu, oherwydd diffygion wrth gynllunio rhaglenni ac mewn profiadau dysgu.

Yn eu gwaith academaidd, mae llawer o fyfyrwyr yn gydwybodol. Yn gyffredinol, maent yn ysgrifennu'n glir ac yn dechrau ymgysylltu'n feirniadol ag ystod addas o ffynonellau. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth, gan ddod â syniadau at ei gilydd yn rhwydd a chreu dadl rymus. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr israddedig yn cyflawni gofynion eu prosiectau ymchwil weithredu yn dda, gan ddangos dealltwriaeth addas o gyflwyniad a dulliau ymchwil. Mae myfyrwyr ar y rhaglen ôl-raddedig yn gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio'r damcaniaethau addysg sy'n sail i ymagweddau at addysgu, fel ystyried profiadau dysgu effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'u darllen a'u hymchwil yn ddigon da i lywio'u harfer ystafell ddosbarth.

Lles ac agweddau at ddysgu:

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn dangos agweddau eithriadol o dda at ddysgu ac ymrwymiad cryf i yrfa mewn addysgu yn gyson. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau proffesiynol, yn cynnwys diogelu disgyblion, ac yn datblygu ymddygiadau personol a phroffesiynol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer gyrfa mewn addysgu.

At ei gilydd, mae myfyrwyr yn dangos ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd rheoli eu lles eu hunain, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth i gynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd trwy gyfuniad o wiriadau rheolaidd gan diwtoriaid, systemau cymorth bugeiliol, a sesiynau lles a ddarperir gan y brifysgol. Mae athrawon dan hyfforddiant sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu yn elwa ar gymorth amserol a thra ystyriol gan y brifysgol, sy'n eu galluogi i gynnal eu cynnydd yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol â disgyblion yn ystod eu lleoliadau ysgol. Maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol gadarn o'r cysylltiad pwysig rhwng lles disgyblion a'u gallu i ymgysylltu'n effeithiol â dysgu. O ganlyniad, mae athrawon dan hyfforddiant yn dechrau cynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy'n helpu disgyblion i archwilio themâu fel hunaniaeth, emosiynau a hunanhyder.

Pan ddarperir cyfleoedd priodol ar eu cyfer, mae myfyrwyr yn ymgymryd â rolau arwain yn y brifysgol ac mewn ysgolion. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn cyfrannu at grwpiau arweinyddiaeth y bartneriaeth ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at gyflwyno rhaglenni yn weithredol. Mewn ysgolion, mae myfyrwyr yn rhannu eu harbenigedd yn hyderus gyda staff ysgolion mewn meysydd fel y Gymraeg a chymhwysedd digidol, yn ogystal ag ymgymryd â chyfrifoldebau i arwain clybiau a digwyddiadau disgyblion yn llwyddiannus, fel boreau coffi. Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn ymgysylltu'n dda â bywyd ehangach yr ysgol ac yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn yr ysgol i ymestyn eu dealltwriaeth o addysgu, dysgu a'r cwricwlwm.

Mae perthnasoedd rhwng athrawon dan hyfforddiant, tiwtoriaid, a mentoriaid, yn gryfder nodedig yn y bartneriaeth, ac mae bron pob un o'r myfyrwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi a'u parchu yn y brifysgol ac yn ystod lleoliadau ysgol. Mae'r perthnasoedd ymddiriedus a phroffesiynol hyn yn creu diwylliant lle mae myfyrwyr yn teimlo'u bod yn gallu cymryd rhan yn agored mewn deialog fyfyriol a gofyn am arweiniad pan fydd angen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn gydwybodol ac yn ymatebol i gyngor ac arweiniad. Pan fyddant yn wynebu heriau personol a phroffesiynol, maent yn dangos gwydnwch a phenderfyniad i barhau â'u gyrfa ddewisol.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn cydweithio'n dda â'u cymheiriaid ac yn elwa ar ddysgu oddi wrth ei gilydd. Maent yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd proffesiynol cryf y maent yn eu sefydlu gyda thiwtoriaid a mentoriaid yn yr ysgol, gan gydnabod sut gallant fanteisio ar arbenigedd proffesiynol i gefnogi eu dysgu yn effeithiol, er enghraifft trwy gynllunio ochr yn ochr â'u mentoriaid. Mae'r diwylliant hwn o ymddiriedaeth a chydweithio yn sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo'u bod yn cael cymorth da i ddatblygu eu harfer addysgegol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn sesiynau a addysgir yn frwdfrydig, gan ddangos hyder wrth gymryd rhan mewn trafodaethau am agweddau allweddol ar system addysg Cymru, fel Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau cenedlaethol ehangach. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu safbwyntiau mewn modd myfyriol a meddylgar ac yn dangos parch at eu cymheiriaid a'u tiwtoriaid. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn adeiladol i adborth ac yn ymdrechu i ymgorffori cyngor ac arweiniad gan diwtoriaid a mentoriaid yn eu haseiniadau a'u haddysgu.

Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu eu tueddfrydau a'u gwerthoedd proffesiynol yn dda ac yn dangos ymrwymiad i gynhwysiant yn eu haseiniadau a'u cynlluniau gwersi. Mae ganddynt ymwybyddiaeth addas o hawliau a deddfwriaeth plant, er enghraifft sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio ar eu haddysgu. Maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at eu 'cymunedau dysgu' ac yn dechrau ennill dealltwriaeth dda o'r rhwystrau posibl rhag dysgu oherwydd annhegwch. Pan fo'n briodol, mae lleiafrif o athrawon dan hyfforddiant yn myfyrio'n dda ar gyd-destun eu hysgol ac yn teilwra'u dulliau addysgu wrth ystyried bywydau plant yn eu dosbarthiadau.

Ar hyd cyfnod eu rhaglen, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwella'u gallu i fyfyrio ar eu harfer a gwerthuso'u gwersi'n ddiwyd. Maent yn gallu nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu haddysgu yn gynyddol, ac yn defnyddio ystod o fodelau myfyriol i'w helpu i ffurfio'u myfyrdodau. Mae llawer ohonynt, yn enwedig y rhai ar y rhaglen TAR, yn defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn gydwybodol i olrhain eu cynnydd mewn ffordd ystyrlon. Mewn ychydig o achosion, mae myfyrwyr yn creu cysylltiadau clir â dysgu bwriadedig ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eu haddysgu ar ddysgu'r disgyblion yn feirniadol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae myfyrdodau myfyrwyr yn canolbwyntio'n rhy aml ar ddisgrifio'u dulliau addysgu a rheolaeth ystafell ddosbarth yn hytrach nag ymgysylltu'n feirniadol ag effaith eu cynllunio a'u haddysgu ar ddysgu disgyblion.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn croesawu'r cymorth a gânt gan diwtoriaid a mentoriaid i'w helpu i ymgymryd yn feirniadol ag ymchwil. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt gynnal gwaith ymchwil ac ymchwiliadau agos i arfer o effeithiolrwydd strategaethau penodol, er enghraifft i wella darllen. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon dan hyfforddiant yn ddigon beirniadol wrth ystyried deilliannau eu hymholiadau.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn cydnabod bod presenoldeb da mewn sesiynau a addysgir a'u lleoliadau ysgol yn ddisgwyliad o'r rhaglen. Mae athrawon dan hyfforddiant y mae eu presenoldeb wedi cael ei effeithio gan salwch neu amgylchiadau personol yn ymgysylltu'n dda â chymorth ac addasiadau i'r rhaglen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r diwrnodau gofynnol yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o fyfyrwyr yn dangos digon o ymrwymiad i fynychu pob un o'r sesiynau yn y brifysgol.

Addysgu a phrofiadau dysgu:

Mae'r rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn briodol i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i addysgu yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru. Dros gyfnod, mae'r ddwy raglen yn darparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu gwybodaeth briodol am addysgu effeithiol yn y sector cynradd. Mae'r rhaglen israddedig yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth o destunau o gymharu â'r sectorau. At ei gilydd, mae wedi'i

strwythuro'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen bob amser yn gwneud y gorau o gyfleoedd i ddychwelyd at themâu a chysyniadau mewn ffordd raddol i feithrin gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth myfyrwyr yn ddilyniannol. Yn y rhaglen TAR, yn benodol, mae diffyg cydlyniad a dilyniant rhesymegol yng nghynllun y rhaglen. Ymdrinnir â rhai agweddau â manylder annigonol, tra bod ychydig o sesiynau'n canolbwyntio ar ddulliau datblygedig fel defnyddio rhaglenni addysgu arbenigol i gefnogi datblygiad iaith.

Ceir cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o beth mae'n ei olygu i fod yn athro yng Nghymru. Mae modiwlau yn y ddwy raglen yn rhoi amlygrwydd i elfennau allweddol Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y pedwar diben, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a fframweithiau dilyniant. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu hyn yn cynorthwyo myfyrwyr yn ddigon da i ennill dealltwriaeth drylwyr o sut mae darnau cydrannol Cwricwlwm i Gymru yn cydberthyn. Mae modiwlau'n annog athrawon dan hyfforddiant i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng theori ac arfer addysgol. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae gormod o bwyslais ar agweddau damcaniaethol, yn enwedig yn ystod cam cyntaf y cwrs TAR yn y brifysgol, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu'r medrau ymarferol a'r meddwl myfyriol sydd eu hangen i gynllunio gwersi effeithiol. O ganlyniad, ni chaiff myfyrwyr eu cefnogi'n ddigon da i greu cysylltiadau effeithiol rhwng theori addysgol ac arfer ystafell ddosbarth.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr ymgysylltu ag ystod o strategaethau addysgu a dysgu, sy'n cael eu llywio gan ymchwil a llenyddiaeth gyfredol. Fodd bynnag, nid yw sesiynau a addysgir bob amser yn cael eu cynllunio'n ddigon cydlynus neu resymegol, yn enwedig ar y rhaglen TAR. Yn aml, mae sesiynau unigol yn cwmpasu ystod rhy eang o gynnwys, gan gyfyngu ar gyfleoedd pwrpasol i athrawon dan hyfforddiant atgyfnerthu eu dysgu neu archwilio dulliau addysgegol yn ddigon manwl. Er enghraifft, mae cynnwys ychydig o sesiynau a addysgir yn rhychwantu dulliau addysgu ar gyfer grwpiau blwyddyn neu feysydd pwnc lluosog heb amser digonol i drafod a myfyrio ar syniadau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i fyfyrwyr amgyffred dilyniant ac addysgeg yn benodol i sector yn gadarn.

Un o gryfderau'r rhaglen yw'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant yn y Gymraeg. Caiff myfyrwyr eu hannog a'u cynorthwyo'n bwrpasol i wella'u medrau o'u mannau cychwyn unigol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu hyder a gallu cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg i gefnogi eu haddysgu.

Mae'r rhaglenni'n darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ystyried medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eglur nac wedi'i gynllunio'n ddigon clir i fyfyrwyr ennill y medrau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gefnogi datblygiad graddol medrau disgyblion. Mae'r ddwy raglen yn cynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant archwilio themâu addysgol ehangach sy'n creu themâu trawsbynciol

Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys amrywiaeth, tegwch a hawliau plant. Yn aml, cyflwynir y rhain trwy weithgareddau cyfoethogi neu siaradwyr gwadd, y mae athrawon dan hyfforddiant yn eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, nid yw'r mewnbynnau hyn yn cael eu hintegreiddio'n glir i strwythur cyffredinol y rhaglen bob amser, ac mae'r diffyg dilyniant cynlluniedig yn cyfyngu eu dylanwad ar ddatblygiad tymor hirach athrawon dan hyfforddiant.

Mae ymholi ac ymchwil yn rhan allweddol o ddarpariaeth y ddwy raglen. Ar brydiau, ni chaiff amseriad aseiniadau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag ymchwil neu ymholi, ei gydlynu'n ddigon da o fewn elfennau'r cwrs yn yr ysgol. Mae athrawon dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi diwrnodau synergedd i'w cynorthwyo i greu cysylltiadau rhwng theori ac arfer, er enghraifft trwy archwilio strategaethau ystafell ddosbarth effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn lleoliadau arbenigol. Fodd bynnag, mae amseriad y gweithgareddau hyn yn aml wedi'i ddatgysylltu, ac mewn ychydig o achosion, mae myfyrwyr yn ansicr am sut mae'r sesiynau hyn yn cysylltu â'u taith ddysgu ehangach.

Mae gan bron pob un o'r tiwtoriaid, yr uwch fentoriaid a'r mentoriaid berthnasoedd gwaith cryf â'u hathrawon dan hyfforddiant sydd wedi'u seilio ar barch ar y ddwy ochr. Maent yn gefnogol ac yn ymateb yn dda i anghenion myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys meithrin eu lles a datblygu tueddiadau proffesiynol athrawon dan hyfforddiant ynglŷn â beth mae'n ei olygu i fod yn athro yng Nghymru.

Mae llawer o diwtoriaid y brifysgol yn ennyn ymgysylltiad athrawon dan hyfforddiant mewn amgylcheddau bywiog, ysgogol, ac yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn teimlo'n hyderus i rannu eu syniadau a'u profiadau gyda phobl eraill. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn modelu addysgu da yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd effeithiol o holi ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant drafod a rhannu syniadau mewn parau a grwpiau bach. Yn yr achosion prin lle mae arfer yn fwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn hyrwyddo meddwl beirniadol yn dda. Mae llawer o diwtoriaid yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu addas i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae bylchau yng ngwybodaeth bynciol tiwtoriaid, ac o ganlyniad, nid eir i'r afael â chamdybiaethau athrawon dan hyfforddiant. Caiff hyn effaith negyddol ar y cynnydd a wna athrawon dan hyfforddiant.

Mae gan lawer o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o athrawon dan hyfforddiant, ac yn yr achosion gorau prin, mae tiwtoriaid yn dangos arfer broffesiynol o ansawdd uchel ac yn modelu brwdfrydedd a chreadigrwydd gwych yn eu haddysgu. Yn yr achosion gorau prin, mae tiwtoriaid yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad myfyrwyr a sut i gefnogi myfyrwyr mewn gwahanol gamau o'u hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid bob

amser yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o addysgeg AGA ac ni roddir digon o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant rannu eu canfyddiadau ar y cyd. Mae llawer o diwtoriaid yn annog athrawon dan hyfforddiant i greu cysylltiadau addas rhwng theori ac arfer, gan elwa ar eu profiadau yn ystod lleoliadau ysgol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, prin yw'r cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gysylltu theori ag arfer mewn ffordd ystyrlon. Yn aml, nid yw deunyddiau darllen ac ymchwil o restrau awgrymedig yn ddigon cyfredol i gynorthwyo myfyrwyr i greu cysylltiadau ag arfer bresennol. Mae llawer o diwtoriaid yn darparu adborth effeithiol ac amserol ar lafar yn ystod sesiynau, ac yn yr achosion gorau prin, mae cyfleoedd cyfoethog i athrawon dan hyfforddiant herio'u meddwl eu hunain a meddwl pobl eraill.

Mae gan y bartneriaeth systemau addas ar waith i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant sy'n cwblhau'r rhaglenni BA a TAR yn pontio'n esmwyth o un lleoliad i'r nesaf. Yn ogystal â'r gefnogaeth a gynigir gan fentoriaid ysgol yn ystod lleoliadau, mae tiwtoriaid y brifysgol yn cysylltu'n rheolaidd â'r athrawon dan hyfforddiant. Mae'r tiwtoriaid yn darparu cyngor ymarferol ar unrhyw heriau y gallai'r athrawon dan hyfforddiant eu hwynebu.

Yn gyffredinol, mae mentoriaid yn ymgysylltu â'u rolau yn frwdfrydig ac yn annog athrawon dan hyfforddiant i gymryd rhan mewn agweddau ehangach ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys noson rieni a chynorthwyo â gweithgareddau allgyrsiol. At ei gilydd, mae uwch fentoriaid a mentoriaid yn rhoi adborth rheolaidd a phriodol ar lafar i'w myfyrwyr ar ôl arsylwadau gwersi ac yn ystod cyfarfodydd dal i fyny wythnosol. Mae tua hanner y mentoriaid yn ennyn ymgysylltiad myfyrwyr mewn deialog broffesiynol effeithiol sy'n eu cynorthwyo i fyfyrio'n feirniadol a nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn gywir. Yn yr achosion gorau, mae'r mentoriaid hyn yn trefnu cyfleoedd pwrpasol i athrawon dan hyfforddiant arsylwi athrawon eraill yn yr ysgol ac ymweld ag ysgolion lleol eraill i weld arfer dda mewn meysydd penodol. Fodd bynnag, mae ansawdd y mentora yn rhy amrywiol, ac mewn tua hanner yr achosion, caiff gormod o amser ei dreulio yn ystod sesiynau adborth yn trafod y cynnydd y mae'r athro dan hyfforddiant wedi'i wneud yn unol â'r fframwaith asesu safonau addysgu. Mae'r rheidrwydd i ysgrifennu yn unol â'r safonau yn rheoli rhai sgyrsiau mentora ac mae hyn yn golygu bod rhai meysydd pwysig i'w gwella weithiau'n cael eu colli neu'n aneglur ac nid yw adborth llafar yn cefnogi myfyrdodau beirniadol athrawon dan hyfforddiant yn ddigon da. Yn yr achosion hyn, lle nad yw adborth mentora mor effeithiol, mae ffocws annigonol ar alluogi athrawon dan hyfforddiant i wella ansawdd eu cynllunio. Er enghraifft, nid yw mentoriaid yn darparu digon o gymorth i alluogi myfyrwyr i gynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol, datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion neu asesu cynnydd disgyblion yn ystod gwersi.

Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig tiwtoriaid a mentoriaid yn fuddiol wrth roi gwerthusiad i fyfyrwyr o'r cynnydd y maent yn ei wneud yn erbyn eu targedau unigol a'r

safonau ar gyfer SAC. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr achosion, mae adborth yn rhy hael ac nid yw'r targedau a osodir yn ddigon penodol i alluogi myfyrwyr i ddatblygu meysydd allweddol o'u haddysgu. Mae hyn yn golygu nad yw'r athrawon dan hyfforddiant hyn yn gwneud digon o gynnydd mewn agweddau pwysig ar eu harfer.

Gofal, cymorth ac arweiniad:

Mae arweinwyr, tiwtoriaid a mentoriaid ar draws y bartneriaeth yn gweithio'n agos i drwytho athrawon dan hyfforddiant yn y gwerthoedd craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer y proffesiwn addysgu, yn enwedig parch, uniondeb, cydweithrediad ac ymroddiad. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cefnogi'n dda i ddod yn ymarferwyr effeithiol sydd wedi ymrwymo i'w datblygiad proffesiynol parhaus a gydag ymdrech gref i fod yr athro gorau y gallant fod. Mae tiwtoriaid y brifysgol a staff yn yr ysgol yn darparu cymorth a gofal personol cryf ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion personol a phroffesiynol. Mae perthnasoedd proffesiynol cryf a chymorth personoledig yn nodweddion nodedig o'r bartneriaeth.

Mae athrawon dan hyfforddiant yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gydweithio â mentoriaid a chymheiriaid ar weithgareddau fel ymholi yn yr ystafell ddosbarth, sy'n cyfrannu'n dda at eu twf a'u hyder proffesiynol. Maent yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu cynnydd eu hunain trwy ddefnydd effeithiol o fyfyrdodau rheolaidd yn eu Pasbortau Dysgu Proffesiynol ac yn ystod trafodaethau â mentoriaid a thiwtoriaid.

Mae'r rhaglenni'n darparu cyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau ymchwil yn gynyddrannol. Cyflwynir myfyrwyr i weithgareddau ymchwil ac aseiniadau priodol sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'u harfer yn yr ysgol ac yn eu helpu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o agweddau penodol ar addysg. Er enghraifft, cyflwynir athrawon dan hyfforddiant israddedig i brosiect ymchwil ar raddfa fach trwy ymgysylltiad beirniadol ag erthygl gyhoeddedig ar gysyniad Cynefin. Mae Diwrnodau Synergedd yn yr ysgol a chyfleoedd i ddefnyddio'r ystafell ddosbarth wedi'i hefelychu hefyd yn helpu myfyrwyr i ystyried y berthynas rhwng ymchwil a'u harfer eu hunain yn briodol. Er bod y gweithgareddau hyn yn helpu'r bartneriaeth i gryfhau ei gweledigaeth i ddatblygu ymarferwyr sy'n ystyriol o ymchwil, nid yw rhaglenni yn cynorthwyo myfyrwyr yn ddigon da i ddatblygu meddwl beirniadol dyfnach a gwerthusiad trylwyr o ymchwil. Nid yw tiwtoriaid y brifysgol a mentoriaid yn darparu digon o enghreifftiau o'u hymchwil eu hunain a sut mae hyn wedi dylanwadu ar arfer neu wedi cael effaith ar ddysgu disgyblion.

Caiff myfyrwyr ystod o gyfleoedd gwerthchweil sy'n eu helpu i ennill dealltwriaeth o gyd-destun cymunedau ar draws y bartneriaeth ac yn ehangach. Trwy'r gwaith mewn ysgolion ac yn y brifysgol, caiff myfyrwyr y brifysgol eu gwneud yn ymwybodol o effaith tlodi ar gynnydd disgyblion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr yn ystod eu lleoliadau ysgol i ystyried sut mae ysgolion yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon, er enghraifft trwy ganolbwyntio ar

waith y swyddog ymgysylltu â theuluoedd neu drwy gymryd rhan mewn trafodaethau â staff yn yr ysgol am sut gallant deilwra dulliau dysgu ac addysgu i ymateb i heriau penodol a ysgogwyd gan gyd-destun yr ysgol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol i sicrhau bod myfyrwyr yn deall amrywiaeth, arfer wrth-hiliol a Hawliau'r Plentyn.

Caiff athrawon dan hyfforddiant gyfleoedd addas i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau'r bartneriaeth. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn mynychu grwpiau arweinyddiaeth y bartneriaeth ac yn dylanwadu ar ddatblygu agweddau ar y ddarpariaeth. Yn yr ysgol, caiff myfyrwyr gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ysgol gyfan a datblygu mentrau gwreiddiol ac annibynnol, naill ai er budd disgyblion neu i gyfrannu at ddysgu proffesiynol ar gyfer aelodau staff eraill yn yr ysgol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r bartneriaeth yn darparu cyfleoedd yn systematig i bob un o'r myfyrwyr feithrin eu medrau arwain neu hwyluso cyfleoedd strwythuredig i fyfyrwyr fod yn arweinwyr dysgu, er enghraifft yn eu grwpiau cymheiriaid.

Mae tiwtoriaid y brifysgol a mentoriaid yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael cymorth ac arweiniad defnyddiol i gwblhau eu Pasbortau Dysgu Proffesiynol (PDP). Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i'w defnyddio'n dda i'w helpu i fonitro'u cynnydd eu hunain a pharatoi ar gyfer y cyfnod ymsefydlu. Caiff myfyrwyr gyfleoedd priodol i fanteisio ar gymorth i fynd i'r afael â diffygion sydd ganddynt â'u medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol trwy ddefnyddio ystod o adnoddau ar-lein, er bod effaith y cymorth hwn yn amrywiol.

Mae athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn academaidd neu yn ystod lleoliadau ysgol yn cael eu nodi'n gyflym, yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella ac yn cael eu monitro gan staff yn yr ysgol a thiwtoriaid y brifysgol. Caiff myfyrwyr arweiniad amserol ar ymgeisio am swyddi addysgu a sesiynau strwythuredig ar gyfnodau ymsefydlu a'r camau nesaf yn eu gyrfa.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda gwasanaethau ehangach y brifysgol i ddarparu cymorth ar gyfer lles myfyrwyr. O'r herwydd, caiff myfyrwyr gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles. Er enghraifft, gall myfyrwyr ddilyn cyrsiau i gefnogi ymwybyddiaeth iechyd meddwl, yn ogystal â chyngor ar sut i ddelio â straen. Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn sensitif iawn i anghenion lles athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig pan fyddant yn wynebu heriau yn ystod lleoliadau ysgol. Er enghraifft, mae gan y bartneriaeth ymagwedd gefnogol a hyblyg at gynorthwyo myfyrwyr â phresenoldeb yn yr ysgol os bydd salwch neu heriau personol wedi tarfu ar eu lleoliad. Mae dealltwriaeth a sensitifrwydd y tîm rhaglen wrth ddarparu cymorth yn gryfder yn y ddwy raglen.

Mae'r bartneriaeth yn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant ag ADY neu anableddau a nodwyd yn cael cymorth priodol trwy gydol pob agwedd ar y rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag addasiadau yn gysylltiedig â'r brifysgol a'r lleoliad i ddiwallu anghenion yn effeithiol a darparu cymorth cyfannol ar gyfer myfyrwyr unigol.

Ar y cyfan, caiff mentoriaid wybodaeth ddefnyddiol gan y brifysgol am athrawon dan hyfforddiant cyn iddynt ddechrau yn eu lleoliadau. Mae myfyrwyr yn cwblhau proffiliau un dudalen ac yn cael cyfarfodydd gyda mentoriaid cyn iddynt weithio gyda'i gilydd yn yr ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn, wedi'u hwyluso gan y brifysgol, yn helpu sefydlu diwylliant o bartneriaeth a chydweithio rhwng y mentor a'r myfyriwr, sy'n gryfder yn y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw mentoriaid bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigon da am y cynnydd a wna myfyrwyr unigol o ran eu lleoliadau blaenorol.

Nid yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn peri pryder. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys hyfforddiant ar amddiffyn disgyblion rhag radicaleiddio trwy sesiynau'r brifysgol yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Yn yr ysgol, mae mentoriaid arweiniol yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu briffio'n llawn am drefniadau diogelu ysgolion unigol ar ddechrau pob lleoliad. Yn ddiweddar, mae'r brifysgol wedi cryfhau ei hymagwedd at helpu myfyrwyr i ddeall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel a'r broses ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon am eu diogelwch eu hunain.

Arweinyddiaeth a rheolaeth:

Mae gweledigaeth Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru yn alinio'n dda â chenhadaeth ddinesig y Brifysgol i ddatblygu dysgwyr myfyriol, cydweithredol ac sy'n ystyriol o ymchwil. Ers achredu'r rhaglenni BA Cynradd a TAR yn 2020 a 2022 yn y drefn honno, mae arweinwyr AGA wedi datblygu perthnasoedd pwrpasol a chydweithredol ag ysgolion partner. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi cael ei seilio ar bartneriaethau hirsefydledig ag ysgolion a ddatblygwyd cyn achredu'r rhaglenni newydd. O ganlyniad, ceir ymrwymiad dwfn ac ar y cyd ar draws y Bartneriaeth i baratoi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol ar gyfer y proffesiwn. Caiff y weledigaeth ei hategu'n briodol gan fodel cysyniadol ar sail Cymunedau Dysgu, sy'n hyrwyddo cydweithio a chydlunio gwybodaeth yn fuddiol, ac ymrwymiad cryf i 'addysgeg neilltuol' ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, ni chaiff gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Bartneriaeth eu deall yn gyson gan staff y brifysgol na staff yn yr ysgol. Mae'r diffyg hwn o ran dealltwriaeth ar y cyd yn cyfyngu ar ansawdd ac effaith gwaith y Bartneriaeth ar draws gwahanol elfennau'r ddwy raglen.

Yn ddiweddar, bu newid sylweddol a chyflym yn uwch dîm arweinyddiaeth AGA y Bartneriaeth yn y brifysgol, gyda chyfle cyfyngedig iawn ar gyfer trosglwyddo i'r deiliaid swyddi dros dro i'w cynorthwyo yn eu rolau newydd. Mae'r arweinwyr AGA newydd hyn

wedi ceisio'n ddiwyd i wneud y cyfnod pontio mor esmwyth ag y bo modd i'w cydweithwyr a'u partneriaid. Er gwaethaf hyn, bu oedi yn y cynnydd yn erbyn ychydig o flaenoriaethau strategol. Ymhellach, nid yw arferion arwain pwysig wedi'u datblygu'n ddigonol. Er enghraifft, mae'r defnydd o ddata carfan gyfan neu'r arsylwadau uniongyrchol o addysgu a mentora yn annigonol ar hyn o bryd i lywio cynllunio strategol.

Mae uwch arweinwyr ar draws y Bartneriaeth yn cyfrannu'n briodol at adolygu'r cyfeiriad strategol trwy gyd-gadeirio'r Bwrdd Gweithredol a'r Grŵp Arweinyddiaeth. Mae strwythurau llywodraethu hefyd yn cynnwys grwpiau priodol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried meysydd allweddol fel dysgu ac addysgu, ymchwil a lles. Er bod y grwpiau llywodraethu hyn yn cefnogi cyflwyno rhaglenni, nid ydynt yn cynnig digon o graffu beirniadol i yrru gwelliant yn effeithiol. Er enghraifft, dim ond yn ddiweddar y nodwyd ac yr aethpwyd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o weithdrefnau diogelu. Er bod y grwpiau hyn yn darparu adborth addas ar faterion gweithredol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar nodau strategol y Bartneriaeth.

Mae gan y Bartneriaeth brosesau cyfathrebu addas i rannu gwybodaeth bwysig, ac mae'r rhain yn glir ac yn gefnogol i ysgolion partner, ar y cyfan. Yn ddiweddar, cryfhawyd cyfathrebu ymhellach, er enghraifft trwy lansio cylchlythyr yn rhoi manylion am ddiweddariadau. Caiff trefniadau lleoliadau eu rheoli a'u cyfleu'n ofalus, gan ystyried anghenion ysgolion ac athrawon dan hyfforddiant. Mae'r Cyfarwyddwr AGA a benodwyd yn ddiweddar a'r tîm arweinyddiaeth AGA ehangach yn ymateb yn brydlon i faterion a godir gan ysgolion, sy'n helpu meithrin ymddiriedaeth a chryfhau perthnasoedd.

Mae uwch arweinwyr yn y brifysgol wedi dyrannu adnoddau priodol i gefnogi'r Bartneriaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi cydnabod bod angen darparu amser ychwanegol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth mewn meysydd allweddol fel ymchwil, recriwtio a dadansoddi data, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith y newidiadau hyn. Mae'r Bartneriaeth wedi buddsoddi'n helaeth yn rôl Arweinwyr Sicrhau Ansawdd. Er gwaethaf eu hymglymiad mewn grwpiau arweinyddiaeth, a'u hymweliadau arferol i arsylwi athrawon dan hyfforddiant, nid yw Arweinwyr Sicrhau Ansawdd yn cyfrannu'n ddigon da at ffurfio'r cyfeiriad strategol. O ganlyniad, nid ydynt wedi cael effaith ddigonol ar wella agweddau pwysig fel mentora.

Mae gan y Bartneriaeth ymagwedd wedi'i strwythuro'n ofalus at ychydig o agweddau ar hunanwerthuso, fel casglu barn athrawon dan hyfforddiant a phartneriaid ysgol. Mae hyn wedi arwain at adborth buddiol i lywio newidiadau gweithredol, er enghraifft addasu hyd lleoliadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o sail dystiolaeth ehangach i werthuso effaith eu gwaith. Er enghraifft, nid ydynt yn ystyried data carfan gyfan yn ddigon da i olrhain perfformiad athrawon dan hyfforddiant neu'n

cynnal arsylwadau uniongyrchol o addysgu a mentora i lywio cynllunio strategol. Nid yw Arweinwyr Sicrhau Ansawdd yn gwerthuso neu'n adrodd yn ffurfiol ar ansawdd mentora, a dim ond yn ddiweddar y maent wedi dechrau rhannu eu barn am y cymorth a gynigir gan ysgolion partner. Yn ychwanegol, ceir gwerthusiad cyfyngedig o effaith y rôl Arweinydd Sicrhau Ansawdd, sy'n cynrychioli buddsoddiad sylweddol gan y Bartneriaeth. O ganlyniad i'r diffygion hyn, ni chaiff y meysydd pwysig i'w datblygu mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth a'r effaith gysylltiedig ar ddysgu athrawon dan hyfforddiant eu nodi, ac nid eir i'r afael â nhw ar ddigon o frys.

Mae cynllunio strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, gan gynnwys datblygu medrau Cymraeg a gallu ymchwil. Mae'r ffocws ar y blaenoriaethau cenedlaethol hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau myfyrwyr. O ganlyniad i'r cydweithio â rhanddeiliaid, nodwyd cyfleoedd buddiol i gyfoethogi ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth, er enghraifft o ran medrau Cymraeg. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad athrawon dan hyfforddiant yn y maes hwn. Mae'r Bartneriaeth yn dangos ymrwymiad cryf i degwch ac amrywiaeth, fel y dangosir trwy ymgysylltu â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae cynlluniau strategol yn nodi ychydig o flaenoriaethau lleol perthnasol yn briodol, fel cryfhau rôl Arweinwyr Sicrhau Ansawdd mewn mentora, ond nid yw'r cysylltiad rhwng hunanwerthuso a'r blaenoriaethau lleol yn ddigon cryf. Yn ychwanegol, mae cynnydd wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn wedi cael ei gyfyngu yn ystod cyfnod pontio arweinyddiaeth ac ailstrwythuro'r brifysgol. Nid yw arweinwyr wedi gwerthuso cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau yn drylwyr. Dros gyfnod, nid yw uwch arweinwyr y brifysgol wedi darparu goruchwyliaeth ddigonol i sicrhau ymatebion amserol y Bartneriaeth i argymhellion allanol, yn enwedig o ran mentora, hunanwerthuso a sicrhau ansawdd.

Mae tiwtoriaid AGA yn ymgysylltu'n fuddiol ag ymchwil gydweithredol sy'n alinio â blaenoriaethau cenedlaethol, ac mae'r brifysgol yn darparu cymorth priodol i staff ymgymryd ag ymchwil trwy gynlluniau ymchwil unigol. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn defnyddio'u hymchwil eu hunain yn effeithiol i lywio'u haddysgu, er enghraifft mewn defnyddio methodolegau ymchwil creadigol neu sut i gefnogi iechyd meddwl disgyblion. Caiff staff eu cynorthwyo'n briodol hefyd i ymgymryd â dysgu proffesiynol yn gysylltiedig ag anghenion unigol ac anghenion y rhaglen, ac mae hyn yn helpu datblygu eu dealltwriaeth o addysgeg AGA. Mae cynhadledd flynyddol y Bartneriaeth yn darparu cyfle gwerthfawr i addysgwyr y brifysgol ac mewn ysgolion rannu ymchwil a diddordebau proffesiynol. Mae arweinwyr AGA yn nodi'n briodol yr angen i adeiladu ar hyn fel bod ysgolion partner ac eraill yn elwa'n fwy rheolaidd ar ymchwil ac ymholiadau proffesiynol.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn mynychu hyfforddiant defnyddiol yn y brifysgol, lle maent yn elwa ar arweiniad gweithdrefnol clir a manwl i gefnogi cynnydd athrawon dan hyfforddiant yn ystod lleoliadau. O ganlyniad, mae llawer o fentoriaid yn gwneud

sylwadau buddiol ar Basbortau Dysgu Proffesiynol athrawon dan hyfforddiant. Mae arweinwyr AGA hefyd yn cydnabod bod angen cynnig cymorth i fentoriaid ar wahanol adegau o'u datblygiad. Er enghraifft, maent yn dangos ymrwymiad cryf i'r model 'mentora addysgiadol' gyda phwyslais ar hyrwyddo deialog fyfyriol rhwng mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant. Mewn ychydig o achosion, caiff y dysgu proffesiynol hwn effaith gadarnhaol gan fod mentoriaid yn rhoi cymorth medrus i athrawon dan hyfforddiant fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer, er enghraifft trwy holi gofalus. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r dull ac nid yw wedi'i ddeall yn dda na'i gymhwyso'n gyson ar draws y Bartneriaeth eto.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu
- yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/09/2025